## CYNGOR CYNGHORI SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Cynghori Sefydlog Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Nant, Ffordd Nant Hall, Prestatyn dydd Iau, 3 Chwefror, 2005 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

**Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr M.M. Jones (Cadeirydd), R.E. Barton (arsyllwr), G.C. Evans, K.N. Hawkins, G.A. Jones, D. Owens a G.J. Pickering

**Cynrychioli Cyd Bwyllgor Cyd-drafod Athrawon Sir Ddinbych**

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw a M.B. Lloyd

**Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

T. Bryer, H. Ellis, S. Harris, B.H. Jones, J. Kirkham a P. Speirs

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Sion (Yn lle’r Parchedig Athro. L.J. Francis)

### HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Addysg, Arolygwr/Ymgynghorydd R.E. (T. Jones) a Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

M. Colbert, Parchedig. P.J. Collinson, Major D. Evans, M. Evans, J. Hannam a’r Cynghorydd N. Hugh-Jones

Roedd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Corfforaethol dros dro hefyd yn ymddiheuro am absenoldeb.

### MUNUD O DAWELWCH

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o dawelwch.

### MATERION AELODAETH

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i’r cyfarfod. Soniodd am ymddeoliad y Brif Nyrs Sister Elizabeth Kelly, Jean Hannam a’r Parchedig J. Owen a thalodd deyrnged i’r unigolion hynny am eu cyfraniadau gwerthfawr. Cytunwyd i anfon llythyr ar ran SACRE yn mynegi’r teimladau hynny ac yn cyflwyno dymuniadau gorau’r aelodau iddyn nhw i’r dyfodol. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at ymddeoliad Mrs. Sioned Bowen, Cyfarwyddwraig Dysgu Gydol Oes Corfforaethol yr awdurdod a chytunwyd i anfon llythyr ati i ddiolch i Mrs Bowen am ei gwasanaeth rhagorol.

### 592. PARTHED YSGOL Y PARC, DINBYCH - CYFLWYNIAD

(Daethpwyd â’r eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chydsyniad y Cadeirydd).

Cyflwynodd y Cadeirydd Mrs Linda Durrell a chroesawodd hi i’r cyfarfod. Mae Mrs Durrell yn athrawes yn Ysgol y Parc, Dinbych oedd yn mynychu i roi cyflwyniad ar ddarparu a chyflenwi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol.

Dywedodd Mrs. Durrell wrth yr aelodau fod gan Ysgol y Parc ethos moesegol cadarn iawn. Nid pwnc yn unig oedd Addysg Grefyddol ond roedd hefyd yn ymwneud â pherthynas plant â’u cyfoedion, oedolion yn yr ysgol, pobl yn y gymuned a bywyd ei hun. Soniodd am ddarpariaeth a chyflenwad Addysg Grefyddol yn yr ysgol gyda phwyslais arbennig ar y meysydd canlynol:-

Addoliad Cyfunol - Cynhelir gwasanaeth i'r ysgol i gyd bob dydd Llun a dydd Gwener. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ar ddydd Llun a gall gyfeirio at rywbeth cyfoes (fel trychineb tsunami) neu rywbeth sy'n digwydd o fewn yr ysgol. Mae thema foesegol hynod o gadarn i'r storiâu. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau amser ysbrydol yn yr ysgol, amser i adlewyrchu a chyfle i weddïo. Gwahoddir yr holl athrawon a rhieni i'r gwasanaeth gan gynnwys rhieni a phlant o grefyddau eraill fel Tystion Jehofa a Mwslemiaid i sicrhau y gall yr holl blant gyfranogi yng ngwasanaeth yr ysgol. Mae gwasanaeth dydd Gwener fel arfer yn dathlu pen blwydd y plant a chyraeddiadau arbennig lle cyflwynir tystysgrifau ymddygiad da. Ceir storiâu Beiblaidd a gwersi eraill ar faterion moesegol ar ddydd Gwener a dydd Iau. Cynhelir gwasanaethau dosbarth ar ddydd Mawrth a dydd Mercher sy'n cynnwys storiâu o'r Beibl a gweddïau lle mae plant yn cymryd rhan yn weithredol.

Gwersi Addysg Grefyddol - Yn ysgol y babanod, rhennir y cwricwlwm yn Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1. Mae Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau deilliannau dymunol ac mae'r storiâu'n dod o dan ddatblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol gyda gweddïau a gwaith yn cael eu cynllunio yn unol â 'Badger RE Scheme'. Cynhelir amser cylch ym mhob dosbarth lle mae pob plentyn yn cael cyfle i rannu ei deimladau/theimladau gyda'r dosbarth. Mae'r pynciau yn Blynyddoedd Cynnar yn ymwneud â Chynhaeaf, Ffrindiau ac Arch Noa. Yng Nghyfnod Allweddol 1, dilynir y Maes Llafur y cytunwyd arno a dysgir AG yn wythnosol. Rhennir y rhaglen astudio yn chwe phwnc dros ddwy flynedd ac mae'r plant yn cael gwersi hefyd am grefyddau eraill. Defnyddir deunyddiau gweledol ynghyd ag arteffactau. Mae gan yr ysgol berthynas agos gyda'r gweinidogion a'r offeiriaid sy'n ymweld â'r ysgol weithiau i gymryd gwasanaeth ac mae'r plant yn ymweld ag eglwysi a chapeli lleol. Mae AG hefyd yn cael ei dysgu drwy amrywiol weithgareddau eraill gan gynnwys rhyngweithiad gyda'r gymuned; dysgu am grefyddau a diwylliannau eraill; crefft a choginio. Asesir y plant fesul tymor ac mae Addysg Grefyddol yn cael ei monitro'n barhaus yn yr ysgol.

I gloi, cyfeiriodd Mrs. Durrell at rai deunyddiau oedd ganddi o'r ysgol ac oedd wedi'u harddangos i'r aelodau gan gynnwys enghreifftiau o waith y plant, arteffactau, adnoddau eraill a ffurflenni asesu.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau i Mrs Durrell am amrywiol agweddau darpariaeth AG yn Ysgol y Parc, gan gyfeirio'n benodol at: y rhyngweithiad rhwng plant a rhieni o grefyddau eraill o fewn yr ysgol; dysgu am y gymuned ehangach a diwylliannau eraill; y broses a'r deunyddiau asesu a chyfranogiad athrawon eraill yn narpariaeth AG.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Durrell am ei chyflwyniad diddorol ac addysgol oedd wedi rhoi cipolwg i'r gwaith rhagorol a wneir yn Ysgol y Parc wrth ddarparu Addysg Grefyddol. Adleisiodd yr aelodau'r sylwadau gan dalu teyrnged i ansawdd ac amrywiaeth y dulliau dysgu o fewn yr ysgol i sicrhau bod y pwnc yn berthnasol ac yn ddiddorol i'r disgyblion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cyflwyniad Mrs. Durrell ar AG yn Ysgol y Parc, Dinbych 'i nodi.*

Cafwyd toriad o bum munud i ganiatáu i aelodau edrych ar y deunyddiau a ddaeth Mrs Durrell gyda hi fel rhan o'i chyflwyniad.

**593. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2004 (dosbarthwyd ynghynt) fel y'u cymeradwy-wyd gan y Cyngor Sir ar 14 Rhagfyr 2004.

**Materion yn Codi**

Tudalen 178 - Eitem Rhif 279 Drafft o'r Adroddiad Blynyddol - Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod copïau o'r ddogfen derfynol ar gael i aelodau yn y cyfarfod. Cadarnhaodd hefyd fod ysgolion wedi derbyn copiau electronig a chaled yn unol â'r trefniadau newydd.

Tudalen 180 – Eitem Rhif ACCAC – Lansio Deunyddiau Asesu Dewisol AG – Roedd y Cadeirydd yn falch o allu cadarnhau iddi fynychu'r lansiad gyda Mrs. M.B. Lloyd a Mr. B.H. Jones. Rhoddodd Mrs. M.B. Lloyd amlinelliad o'r diwrnod a soniodd am y deunyddiau rhagorol oedd yn cael eu hanfon allan i'r ysgolion. Soniodd Mr. B.H. Jones hefyd am lwyddiant y diwrnod a'r gwaith caled oedd wedi'i gyflawni.

***PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.*

**594. FFORWM FFYDD IEUENCTID**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG am y cynnydd hyd yn hyn mewn ymateb i gais SACRE i gynnal Fforwm Ffydd Ieuenctid yn Sir Ddinbych. Yn anffodus, ni fu'r ceisiadau am arian i'r fforwm yn llwyddiannus ac ni fydd yn bosibl symud ymlaen gyda'r prosiect ar hyn o bryd. Atgoffwyd yr aelodau mai'r costau mwyaf oedd cludo disgyblion a thalu am athrawon cyflenwi. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG am y ceisiadau am arian a'r angen am sicrhau lleiafswm o £3k i gynnal y fforwm.

Roedd yr aelodau'n siomedig na ellid datblygu'r prosiect ymhellach oherwydd diffyg arian ond cymeradwy-wyd y gweithgor am ei holl waith caled. Roeddent yn gobeithio y byddai cyfle i edrych ar y cynnig eto yn y dyfodol petai'n bosibl cael arian iddo.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad ar lafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

**595. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGON YSGOLION**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) ar y sylwadau positif a negyddol am Addysg Grefyddol a'r arolwg o Ddatblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol (SMSC) mewn pedair ysgol rhwng mis Mai 2004 a mis Hydref 2004 ynghyd â hanes cefndir byr o bob ysgol.

Cynhaliwyd arolygon yn yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Betws Gwerful Goch
- Ysgol Plas Brondyffryn
- Ysgol Llanfair D.C.
- Ysgol Uwchradd Prestatyn

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG grynodeb byr i'r aelodau o'r darganfyddiadau ymhob ysgol gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau ar y pwnc. Cadarnhaodd nad oedd AG wedi cael arolwg penodol yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ond eu bod wedi ystyried Datblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol (SMSC) yn unol â Fframwaith arolwg newydd Estyn.

Roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn falch o allu dweud bod y sylwadau positif yn adroddiad arolwg pob ysgol yn llawer mwy niferus na'r sylwadau negyddol a chymeradwyodd yn arbennig y nifer helaeth o sylwadau positif ar gyfer Ysgol Llanfair D.C. oedd wedi bod yn destun adroddiad Adran 23. Er budd aelodau newydd, eglurodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y trefniadau arolygu gwahanol ar gyfer Ysgo Wirfoddol a Reolir ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir oedd yn bwnc adroddiad Adran 23 (gan gynnwys SMSC, Addoliad Cyfunol a'r ethos cyffredinol mewn ysgol a Reolir ac AG mewn ysgol a Gynorthwyir) mewn cyferbyniad i Arolygon Adran 10 mewn ysgolion anenwadol. Roedd yn braf nodi hefyd nad oedd unrhyw ddiffygion sylweddol yn un o'r ysgolion a arolygwyd.

Cyfeiriodd Mr. T. Bryer at sylw negyddol ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn yn nodi bod gwybodaeth disgyblion am grefyddau gwahanol i Gristnogaeth yn gyfyng ond roedd hyn yn cael ei wrth-ddweud gan sylwadau positif yn nodi bod disgyblion yn datblygu gwybodaeth foddhaol o brif nodweddion crefyddau eraill. Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod gwrthddywediadau o'r fath yn digwydd mewn adroddiadau arolygon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Owens at sylw negyddol am Ysgol Plas Brondyffryn "mewn nifer o ddosbarthiadau a arolygwyd, nid oedd addoliad (cyfunol) ac nid yw hyn yn cyflawni gofynion statudol" a gofynnodd pa fesurau a gymerwyd i ddelio â'r diffyg hwn. Cadarnhaodd Ms. I. Barros-Curtis ei bod yn gweithio yn yr ysgol a sicrhaodd yr aelodau fod addoliad cyfunol yn cael ei gynnal yn rheolaidd ond nad oedd yr arolygwyr wedi gweld hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod byr roedden nhw wedi'i dreulio yn yr ysgol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, roedd yr aelodau'n trafod y ddarpariaeth o addoliad cyfunol a'r adnoddau ar gyfer AG a ystyriwyd yn wan yn yr ysgol. Dywedodd Ms. I. Barros-Curtis nad oedd digon o arian ar gael i wella deunyddiau AG. Yna, roedd yr aelodau'n ystyried y trefniadau

arolygu newydd ac eglurodd y Swyddog Addysg y byddai mwy o drafodaeth rhwng yr ysgol a'r arolygwr yn ystod ymweliadau a byddai'r ysgolion yn cael cyfle i ymateb i adroddiad yr arolygwyr. Eglurodd y Swyddog Addysg yn fyr y tri arolwg newydd i ysgolion gan gynnwys arolygon llawn, safonol a byr a theimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig bod aelodau'n ymwybodol o sut y byddai'r broses arolygu newydd yn cael ei gweithredu. Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y byddai unrhyw faterion sy'n berthnasol i SACRE ar ôl arolwg, yn cael eu cyflwyno i'r aelodau i'w hystyried.

Roedd y Cadeirydd, yn unol â'r arfer, am longyfarch yr ysgolion a gafodd arolwg ar eu hadroddiadau a chynigiodd unrhyw wasanaethau er mwyn delio ag unrhyw ddiffygion. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith caled oedd yn cael ei wneud mewn ysgolion a thalodd deyrnged i waith yr Arolygwr/Ymgynghorydd AC wrth gefnogi ysgolion Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r adroddiad.*

**596. ADRODDIAD MONITRO AC ADOLYGIAD CEFNOGOL**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn Nghonsortiwm Ysgolion Dinbych oedd yn cynnwys Ysgol Uwchradd Dinbych a'r ysgolion canlynol sy'n ei bwydo: Ysgol Bodfari, Ysgol Cefn Meiriadog, Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy, Ysgol Fron Goch, Dinbych, Ysgol Henllan, Ysgol Heulfre, Dinbych, Ysgol VP Llanelwy, Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych, Ysgol Tremeirchion ac Ysgol Babanod y Parc, Dinbych. (Dosbarthwyd manylion am Ysgol VP Llanelwy ac Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych yn y cyfarfod).

Atgoffodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yr aelodau am y trefniadau newydd ar gyfer monitro darpariaeth Addysg Grefyddol yn dilyn y newidiadau diweddar i broses arolygu ESTYN. Yn dilyn ymweliadau gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor yr hydref, cytunwyd gyda'r ysgol ar adroddiad o'r ymweliad a materion a deilliannau. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y nodweddion da, diffygion ac argymhellion i bob ysgol ynghyd â chrynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan. Dywedwyd wrth yr aelodau bod llawer i'w ddathlu o safbwynt nodweddion da yn ysgolion y consortiwm, yn benodol:-

- Amrediad profiadau a chyfleoedd dysgu a gynigir i ddisgyblion
- Monitro cynnydd disgyblion mewn nifer o ysgolion
- Agweddau cynllunio mewn rhai ysgolion
- Gweithdrefnau ar gyfer asesu cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion mewn rhai ysgolion
- Ymrwymiad ac ymroddiad staff sy'n ymwneud â neu'n gyfrifol am AG
- Statws y pwnc yng nghwricwlwm yr ysgol
- Argaeledd cynlluniau datblygu priodol ar gyfer y pwnc
- Cysylltiadau gyda chymunedau crefyddol ar gyfer AG ac addoli cyfunol mewn nifer o ysgolion
- Patrwm a darpariaeth sicr ar gyfer addoli cyfunol mewn nifer o ysgolion

Roedd yn werth nodi nad oedd meysydd datblygu difrifol mewn pump o'r ysgolion ac mai dim ond un maes datblygu a nodwyd mewn mwy nag un ysgol o safbwynt darpariaeth adnoddau, oedd yn fater ariannol. Wrth nodi'r gwaith rhagorol mewn ysgolion, roedd aelodau'n mynegi pryder am y diffyg adnoddau a amlygwyd o fewn yr adroddiad. O safbwynt materion ICT ac adnoddau, roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn falch o allu rhoi adroddiad am ddogfen o dan y teitl 'ICT ac AG - Rhai Syniadau' oedd yn cynnwys dau CD a chyfoeth o wybodaeth i ysgolion oedd wedi'u casglu gydag arian gan Gyngor Dysgu Cyffredinol Cymru ac Ymddiriedolaeth Sant Gabriel (Sefydliad Culham). Roedd y ddogfen wedi'i hanfon at bob ysgol gynradd ac uwchradd ac roedd copiau cyfyngedig ar gael yn y cyfarfod i'r aelodau. Bydd llawer o'r deunydd hefyd yn cael ei roi ar wefan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

Wrth gloi, cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at agweddau positif cynnal arolygon ond soniodd am y pwysau gwaith ychwanegol a'r amser a dreuliwyd mewn ysgolion yn ystod y broses adolygu. Oherwydd galwadau eraill sy'n gwrthdaro, nododd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG na fyddai'n bosibl o hyd iddo ymweld â phobl ysgol a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau os na fydd rhai ysgolion yn cael eu cynnwys mewn consortia ysgolion yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid adolygu'r sefyllfa a'i dwyn i sylw'r awdurdod addysg lleol. Talodd yr aelodau deyrnged i waith ac ymroddiad yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ac roedden nhw'n cydnabod y pwysau gwaith ychwanegol oedd yn codi o'r adolygiadau ysgolion. Teimlai'r Cynghorydd D. Owens ei bod yn galonogol gwybod faint o waith da

oedd yn cael ei wneud mewn ysgolion ac roedd yn falch o nodi'r safonau uchel oedd yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r adroddiad.*

**597. CYMDEITHAS SACRES CYMRU**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan Mrs. M.B. Lloyd ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2004 yng Nghaerffili fel a ganlyn:-

- cyflwyniad gan Mr. Tudor Thomas (CBAC) ar ddarpariaeth AS ac A2 pan oedd aelodau wedi manteisio ar y cyfle i fynegi pryderon am yr Opsiwn Testament Newydd. Roedd Mr. Thomas wedi nodi ei fod yn croesawu'r ddeialog barhaus rhwng CBAC a'r ysgolion a gwnaed newidiadau yng ngoleuni sylwadau WASACRE. Ychwanegodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod y nifer o geisiadau ar yr Opsiwn Testament Newydd wedi gostwng yn genedlaethol ond bod ceisiadau cyffredinol am Astudiaethau Crefyddol wedi cynyddu ar lefel AS/A2;

- cyfarfod gyda Chyngor AG i lansio'r Fframwaith Cenedlaethol Anstatudol ar gyfer AG lle'r oedd Charles Clarke yn siaradwr gwâdd;

- cyflwyniad gan Mr. Roger Palmer am ACCAC - Y Cyfnod Sylfaen a Wyneb Cyfnewidiol Addysg. Cyn hyn, roedd WASACRE wedi amlygu'r diffyg cyfeiriad at AG o fewn meysydd dysgu ac roedd yn braf nodi bod datganiad wedi'i gynnwys ar y dudalen gyflwyno am ofynion statudol AG. Cynhaliwyd peilot o'r fframwaith drafft a byddai rhai newidiadau'n anorfod yng ngoleuni arfer; a

- chyflwyniad gan Mr. Paul Morgan ar Gynnal Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Nodwyd yng ngoleuni'r broses arolygu mai hwn fyddai'r cyfle olaf i gael adroddiad yn y fformat hwnnw.

Nododd y Cadeirydd iddi fethu mynychu cyfarfod WASACRE a diolchodd i Mrs. Lloyd am ei hadroddiad ar lafar.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn adroddiad ar lafar Mrs. M.B. Lloyd.*

Yn y fan hyn, adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd ar:-

(i) lythyr a dderbyniwyd gan Cytûn Rhyl: Eglwysi gyda'i gilydd yn Y Rhyl oedd wedi'i anfon at y Prif Weithredwr ac aelodau eraill yn mynegi pryderon am absenoldeb adeilad Cristnogol ar gyfer addoliad yn Ne Ddwyrain Y Rhyl. Nid oedd hyn yn fater i SACRE a gofynnodd yr arolygwr/ymgynghorydd AG i'r aelodau nod bod copi o'r llythyr wedi'i dderbyn, a

(ii) bod Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi ysgrifennu at holl Glercod SACRE yn gofyn sut roedd SACRE yn bwriadu monitro Addysg Grefyddol ac Addoli Cyfunol yng ngoleuni'r trefniadau arolygu newydd. Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y byddai'n ymateb gyda manylion trefniadau monitro ac arolygu newydd yr awdurdod.

Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwyr/Ymgynghorydd AG, cyfieithydd y pwyllgor a Chlerc SACRE am eu gwaith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.